# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Iau, 4 Rhagfyr 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr James Davies, Carys Guy, Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr David Smith (Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd); Prif Weithredwr (MM); Uwch Beiriannydd - Lliniaru Llifogydd (WH); Rheolwr Datblygu (PM); Hyfforddi Graddedig (IB-B) a/ac Cydlynydd Archwilio (RE)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd) a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM).

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad personol na rhagfarnol ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Cododd y Cynghorydd Rhys Hughes bryderon o ran amrywiad diweddar a oedd wedi ei roi i amod cynllunio yn ymwneud â'r 'Llyn Glas' mewn chwarel ar Fwlch yr Oernant. Roedd yn bryderus nad oedd ef na Chyngor Cymuned Llandysilio wedi bod yn gyfrin i'r ymgynghoriad ar y cais i amrywio'r amod tra bod cynghorau cymuned cyfagos eraill, aelodau etholedig a chyrff cenedlaethol wedi eu hymgynghori. Soniodd y Cynghorydd Hughes nad oedd y cais wedi ymddangos ar y rhestr wythnosol o geisiadau sy’n cael ei dosbarthu i gynghorwyr. Roedd yn bryderus y gall yr amrywiad effeithio ar gyflenwad dŵr preswylwyr. Cynhaliodd y Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) ymchwil i'r amgylchiadau yn ymwneud â'r cais a'r broses ymgynghori a wnaed ac adroddodd yn ôl i'r Cynghorydd Hughes cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio yr wythnos ganlynol.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2014.

**Cywirdeb:** Dywedodd y Cynghorydd James Davies ei fod wedi ymddiheuro ar gyfer y cyfarfod ond nad oedd hynny wedi ei gofnodi.

Felly:

***Penderfynwyd:** y dylid, yn amodol ar gynnwys yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2014 fel cofnod cywir.*

**5 STRATEGAETH RHEOLI LLIFOGYDD A MATERION YN YMWNEUD Â LLIFOGYDD**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus adroddiad yr Uwch Beiriannydd (Rheoli Perygl Llifogydd) (a gylchredwyd yn flaenorol) ar y Strategaeth Rheoli Llifogydd Lleol a Materion yn ymwneud â Llifogydd. Amlinellodd gefndir cynhyrchu'r Strategaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cymeradwyo Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol y Cyngor yn ffurfiol, a'r cam nesaf yw gweithredu'r Strategaeth. Mae nifer o'r camau gweithredu a'r mesurau a nodwyd eisoes yn cael eu cyflawni neu wedi eu clustnodi ar gyfer eu gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru gyda golwg ar sicrhau cyllid ychwanegol tuag at rai o'r cynlluniau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, gan fod Adolygiad Llifogydd Arfordirol Adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru yn amhendant o ran difrifoldeb llifogydd arfordirol mis Rhagfyr 2013, bod y Cyngor wedi comisiynu ymgynghorwyr i ymgymryd â gwaith pellach yn y maes hwn. Mae adroddiad yr ymgynghorwyr wedi dod i gasgliadau annisgwyl. O ganlyniad, mae'r adroddiad wedi ei rhannu â Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn eu barn ar y casgliadau y daethpwyd iddynt. Yn dibynnu ar farn y budd-ddeiliaid ar gasgliadau'r ymgynghorwyr, efallai y bydd y Cyngor yn herio canfyddiadau'r ymgynghorwyr maes o law. Felly, gofynnodd yr Aelodau a oedd modd cyflwyno adroddiad yr ymgynghorwyr i'r Pwyllgor, ynghyd â sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn ystod ei gyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2015. Ar ôl cwblhau a chytuno ar adroddiad yr ymgynghorwyr, bydd y Cyngor yn cynnal asesiad pellach o'i amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol. Serch hynny, ni ellir byth rhoi unrhyw sicrwydd na fyddai llifogydd yn digwydd pan fo tywydd difrifol.

Atebodd yr Uwch Beiriannydd (Rheoli Perygl Llifogydd) gwestiynau mewn perthynas â llifddorau unigol yn y Rhyl a Phrestatyn a dywedodd bod pryderon penodol mewn perthynas â bylchau yn y morglawdd ar Draeth Barkby a ger Canolfan Nova Prestatyn. Addawodd y byddai'n edrych eto ar y bylchau hyn er mwyn sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i leihau'r perygl o lifogydd difrifol. Cadarnhawyd bod trafodaethau eisoes wedi eu cynnal i sicrhau bod unrhyw berygl o lifogydd arfordirol yng Nghanolfan Nova, sydd wedi ei hadnewyddu, yn cael ei leihau. Mae angen gwaith pellach mewn perthynas â datblygu amddiffynfeydd eilaidd gwell rhag llifogydd yn ardal Splash Point / Ffordd Garford yn y Rhyl. Mae hyn yn amodol ar drafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid.

Holodd yr Aelodau ynglŷn â hyfywedd casglu coed Nadolig yn gynnar yn y flwyddyn newydd a'u defnyddio i gynorthwyo'r broses o ailadeiladu twyni tywod yn ardal Traeth Barkby. Mae ymarfer tebyg wedi bod yn hynod lwyddiannus y blynyddoedd blaenorol.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach, cadarnhawyd bod y diffiniad o ardaloedd lle mae perygl llifogydd er dibenion y Rheoliadau Perygl Llifogydd Ewropeaidd yn wahanol iawn i'r diffiniad lleol o 'Ardaloedd Perygl Llifogydd' er dibenion ceisiadau cynllunio a chynllunio rhag argyfwng. Ni ddylai'r anghysondeb hwn effeithio ar siawns yr ardal o dderbyn arian ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn newid y ffordd y mae ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn cael eu datblygu ac nad oes unrhyw ardal fewndirol yn Sir Ddinbych wedi ei nodi fel ardal y gallai fod angen iddi 'ddychwelyd i'r môr' er mwyn lliniaru perygl llifogydd arfordirol eang. Yr unig ardaloedd yn y sir a nodwyd yw ardaloedd twyni tywod arfordirol. Mae'r ardaloedd penodol hyn yn eithaf da am ailadeiladu eu hunain yn naturiol.

Mae'r strategaeth llifogydd arfordirol yn cael ei rheoli'n agos a'i diwygio'n rheolaidd oherwydd newidiadau yn yr hinsawdd a phatrymau tywydd ac er mwyn ystyried prosiectau posibl ar hyd yr arfordir ac yn y môr, e.e. y posibilrwydd o ddatblygu morlyn llanw i gynhyrchu ynni.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer Cam 3 o Gynllun Amddiffyn Arfordir Gorllewin y Rhyl bellach wedi ei sicrhau ac mae'r gwaith ar y safle i fod i ddechrau ym mis Ionawr 2015. Mae gwaith rhanbarthol er mwyn rheoli perygl llifogydd yn hanfodol, gan nad yw llifogydd yn cydnabod ffiniau sirol na chenedlaethol.

Mewn perthynas â Phrosiectau Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol Clwyd ac Elwy, dywedwyd nad oedd Cadwyn Clwyd wedi sicrhau arian i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o gadw dŵr ar y tir uchel am gyfnod hwy o amser er mwyn lliniaru'r perygl llifogydd ymhellach i lawr yr afon. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn arwain y gwaith yma ac yn ddiweddar mae swyddogion wedi gweld copi o'r adroddiad drafft ar ddalgylch afon Elwy. Yn dilyn trafodaeth fanwl gan y Pwyllgor:

***Penderfynwyd: -***

*(i) yn amodol ar gymryd camau gweithredu mewn ymateb i'r pwyntiau a'r sylwadau uchod, bod y Cyngor yn ymdrechu i gyflawni ei rwymedigaethau statudol a dewisol mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd ac amddiffyn;*
*(ii) yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Cyngor yn cymeradwyo'r camau rheoli perygl llifogydd y maent wedi eu cymryd hyd i reoli perygl llifogydd, yn enwedig mewn ymateb i lifogydd arfordirol mis Rhagfyr 2013; a*
*(iii) bod adroddiad yr ymgynghorwyr, 'Asesu Amddiffynfeydd Arfordirol y Rhyl', ynghyd â sylwadau'r Cyngor, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ar ei ganfyddiadau, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2015 ar gyfer archwiliad manwl.*

**6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL ARCHWILIO**

Cyflwynwyd Adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (a gylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol. Mae'r adroddiad hefyd yn diweddaru aelodau ar faterion yn ymwneud â chraffu.

Mewn ymateb i ymholiadau, dywedodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus y byddai'n gofyn i swyddogion ail-anfon yr wybodaeth ynghyn â thâl y gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd a'r daflen a roddwyd i drigolion at bob cynghorydd sir gyda nodyn yn eu cynghori i hysbysu preswylwyr i gysylltu â swyddfeydd sirol, siopau un alwad neu lyfrgelloedd lleol os oedd ganddynt ymholiadau yn ymwneud â'r cynllun newydd. Gofynnodd yr Aelodau am gynnwys adroddiad ar y cynnydd hyd yma o ran nifer y bobl sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun gwastraff gwyrdd newydd a'r goblygiadau cyllidebol cysylltiedig ar raglen gwaith i’r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer mis Ionawr 2015.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai gan y pwyllgorau archwilio rôl bwysig i'w chwarae o ran gwerthuso effaith y toriadau yn y gyllideb ar drigolion, y Cyngor, a'r ardal yn gyffredinol, yn ogystal â monitro eu heffaith ar berfformiad y Cyngor. Rhagwelwyd y byddai’r set derfynol o doriadau arfaethedig yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2015/16 yn cael eu trafod mewn gweithdy cyllideb ar 12 Rhagfyr 2014, gyda meysydd posibl ar gyfer toriadau yn ystod 2016/17 yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd o fis Ionawr 2015 ymlaen.

O ganlyniad, dymunodd y Pwyllgor bod y cynigion i leihau llwybrau graeanu yn cael eu cyflwyno yn eu cyfarfod ym mis Ebrill 2015 ar gyfer eu harchwilio’n fanwl. Felly:

***Penderfynwyd:*** *yn amodol ar gynnwys yr uchod, y dylid cymeradwyo’r rhaglen waith ddrafft fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dywedodd y Cynghorydd Cefyn Williams bod gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy yn mynd rhagddo’n foddhaol, gyda phresenoldeb da yng nghyfarfodydd y Grŵp. Mae’n ymddangos yn debygol y bydd y trothwy lleol yn parhau i fod yn ddyraniad o 10% o dai fforddiadwy ar bob safle datblygu tai yn y dyfodol agos, hyd nes bydd prisiau tai wedi codi i lefel sy'n golygu bod y trothwy’n haeddu cael ei adolygu.

Dywedodd y Cynghorydd G Lloyd-Williams ei fod wedi mynychu cyfarfod trywydd ymholi yn ddiweddar i baratoi ar gyfer cyfarfod Herio Gwasanaeth sy’n cael ei gynnal yn fuan. Dywedodd bod y Gwasanaeth yn gweithio'n dda a’i fod, mewn rhai meysydd, yn arwain y sector. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill ar newidiadau arfaethedig i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

Dywedodd y Cynghorydd Cheryl Williams y daethpwyd i'r amlwg, mewn cyfarfod diweddar yn ymwneud â'r Gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, nad yw nifer fawr o gynghorwyr sir yn gyfarwydd â faint o waith y mae’r Gwasanaeth wedi ei wneud hyd yma i foderneiddio'r Cyngor. O ganlyniad, byddai cyflwyniad yn cael ei roi i gynghorwyr mewn sesiwn Briffio'r Cyngor ddechrau'r flwyddyn newydd ar y rhaglen a’r cynnydd hyd yma.

Soniodd y Cynghorydd Win Mullen-James am gyfarfod diweddar o'r Fforwm Rhianta Corfforaethol yr oedd wedi ei fynychu a lle cafwyd cyflwyniad buddiol ar y

gweithdrefnau a ddilynir pan fo’r Cyngor yn dewis rhieni ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Teimlodd fod brwdfrydedd y staff ynghylch eu gwaith i'w ganmol.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 13 ac 18 Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**8 STRATEGAETH DDRAFFT AR GYFER SAFLEOEDD CARAFÁN YN SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus adroddiad cyfrinachol gan y Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn crynhoi canfyddiadau'r Grŵp Prosiect a sefydlwyd i geisio datblygu strategaeth i reoli safleoedd carafannau gwyliau ar draws y sir yn well. Ynghlwm wrth yr adroddiad ceir arfarniad opsiynau drafft ar gyfer y strategaeth, sydd â’r teitl 'Cofnodion, Rheoleiddio ac Ôl-effeithiau'. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau yn yr ardal, sef i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn unol â'r caniatâd statudol perthnasol a bod strategaethau clir ar waith i fynd i'r afael â meddiannaeth breswyl heb awdurdod o garafannau gwyliau gan gynnwys rheoleiddio safleoedd sefydledig a sicrhau gorfodaeth effeithiol mewn safleoedd eraill. Mae pryder cyffredinol, yn lleol ac yn genedlaethol, ers cryn amser ar p'un ai yw gweithredwyr safleoedd carafannau gwyliau yn cydymffurfio’n llawn â'r amodau cynllunio a thrwyddedu sy’n ymwneud â’r safleoedd. Er mwyn gwybod faint o waith sydd angen ei wneud ar y maes yma, sefydlwyd Grŵp Prosiect i edrych ar ddiffyg cydymffurfio â rheolau cynllunio a thrwyddedu. Dewisodd y Grŵp bum safle carafannau gwyliau, o wahanol feintiau mewn gwahanol rannau o'r sir, a chasglu rhywfaint o wybodaeth ragarweiniol ar eu gweithrediadau er mwyn mesur nifer yr achosion o dorri cyfyngiadau gwyliau. Yn dilyn hyn, cafodd y cyfeiriadau eu croesgyfeirio gyda gwybodaeth a gedwir ar gronfeydd data gwasanaethau'r Cyngor i ganfod a oes unrhyw gais am wasanaeth neu fudd-daliad wedi ei gyflwyno o'r safleoedd hyn. Byddai ceisiadau o’r fath o bosibl yn golygu bod amodau rheoleiddio yn cael eu torri ar y safleoedd hyn.

Cadarnhaodd y swyddogion bod yr wybodaeth a gasglwyd o'r ymarfer wedi arwain at fwy o gwestiynau nag atebion. Mae gan adrannau’r Cyngor gyfoeth o wybodaeth a chofnodion y gellid eu defnyddio ar gyfer croesgyfeirio neu at ddibenion tystiolaeth e.e. cofnodion cynllunio a thrwyddedu, gwasanaethau cymdeithasol a chofnodion ynglŷn ag addysg, budd-daliadau, treth y cyngor a cheisiadau tocyn bws. Drwy ddefnyddio gwybodaeth o'r fath mae swyddogion wedi cyhoeddi nifer o Orchmynion Tramgwyddo Rheolau Cynllunio i berchnogion safleoedd yn eu hysbysu bod y Cyngor yn amau bod eu safle yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl parhaol. O ganlyniad, mae rhai perchnogion wedi gwirfoddoli i weithio gyda'r Cyngor i sicrhau y cedwir at yr amodau yn y dyfodol. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gydag eraill gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfiad ac osgoi camau gorfodaeth. Serch hynny, mae un perchennog wedi ei alw i lys ynadon ddechrau 2015 oherwydd diffyg cydymffurfio.

Yn seiliedig ar lwyddiant y prosiect peilot, mae swyddogion yn awyddus i barhau â'r gwaith hwn. Er bod sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau rheoleiddio yn dod â budd i'r Cyngor a'r diwydiant twristiaeth lleol, gall cymryd camau gorfodaeth yn erbyn perchnogion gael ôl-effaith ar y Cyngor h.y. gorfod canfod cartref newydd i breswylwyr diamddiffyn os yw safleoedd yn cael eu cau ac ati. Serch hynny, teimlai'r aelodau bod manteision cymryd camau gorfodaeth a chymhwyso'r rheoliadau yn llym yn fwy na'r risg sy'n gysylltiedig â bod yn hunanfoddhaol. Mae preswylio'n anghyfreithlon mewn carafannau gwyliau yn dreth ar wasanaethau cyhoeddus lleol, boed yn awdurdod lleol, gwasanaeth iechyd neu'n wasanaeth cyhoeddus arall, gan nad y carafannau hyn yw eu preswylfa barhaol (ac felly nid oes yn rhaid i'r preswylwyr dalu treth y cyngor).

Er bod aelod o Gynulliad Cymru wedi cyflwyno Mesur Safleoedd Carafanau Gwyliau (Cymru) i'r Cynulliad, roedd yn ymddangos bod diffyg parodrwydd ar hyn o bryd i ddeddfu'r Mesur hwnnw fel darn o ddeddfwriaeth sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, gellir gwireddu rhai agweddau ar y Mesur drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, bu i'r Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd):

- amlinellu natur gymhleth polisïau ac arferion codi tâl ar safleoedd carafannau a'r diffiniad deddfwriaethol o 'garafán' a 'gwyliau' ac ati;
- gadarnhau y byddai'n rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniad y cyfarfod gyda pherchennog un o safleoedd carafannau mwyaf y sir;
- gadarnhau bod y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn awyddus i barhau â'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma gan y prosiect peilot ac i ymestyn hyn ymhellach;
- ddweud y byddai hunanreoleiddio yn chwarae rôl allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth, fodd bynnag, efallai y bydd angen camau gorfodaeth mewn rhai achosion ac y gallai hynny fod yn anodd oherwydd adnoddau ariannol a dynol prin yn sgil y cyfyngiadau cyllidebol;
- ddweud ei fod yn ceisio arweiniad gan yr aelodau ar y ffordd gorfforaethol ymlaen o ran sicrhau bod safleoedd carafannau yn y Sir yn cael eu rheoleiddio'n well ac ar y ffordd fwyaf effeithiol o symud y prosiect peilot yn ei flaen h.y. trwy sefydlu grŵp lefel uchel i yrru'r prosiect yn ei flaen ac i gadw momentwm;
- gadarnhau fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi nodi problem diffyg cydymffurfio tebyg yn ei ardal ond nad ydynt, hyd y gwyddai, wedi gwneud penderfyniad ynghylch y mater.

Awgrymodd yr aelodau, yn ychwanegol at y cofnodion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, y gallai defnyddio'r cofnodion canlynol at ddibenion croesgyfeirio/casglu data fod yn ddefnyddiol:

- Cofnodion ceisiadau am fathodynnau glas
- cysylltu â'r Bwrdd Iechyd i rannu gwybodaeth ynghylch nifer y cleifion sydd ar eu cronfeydd data (yn ganolog a chyda meddygfeydd) sydd wedi nodi safle carafán yn y sir fel eu cyfeiriad;
- gwirio'r 'Gofrestr Etholwyr' eto, ac unrhyw gronfa ddata arall y Cyngor, i sicrhau nad yw'r strydoedd/rhodfeydd a ddefnyddir yn cyfeirio mewn gwirionedd at 'strydoedd' ar safleoedd carafannau gan fod gan rai o'r safleoedd mwy

'strydoedd' ar safle (efallai bod yr arfer hwn yn cuddio gwir nifer y preswylwyr parhaol heb awdurdod);
- cysylltu, o bosibl, â chwmnïau ffonau symudol a darparwyr teledu lloeren i sefydlu a ydynt yn darparu gwasanaethau i breswylwyr ar safleoedd carafannau penodol.

Yn ystod y drafodaeth bu i'r aelodau:
- bwysleisio'r angen i weithio gyda gweithredwyr safleoedd carafannau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau cynllunio a thrwyddedu. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod y cymorth gwerthfawr a ddarperir gan y safleoedd yn y blynyddoedd diwethaf i ailgartrefu'r rheiny a effeithiwyd arnynt gan y llifogydd;
- bwysleisio'r angen i ddarparu neges glir i berchnogion safleoedd carafannau gwyliau na fyddai'r Cyngor yn goddef diffyg cydymffurfio â chyfarwyddiadau cynllunio a thrwyddedu ac, os nad yw perchnogion yn fodlon gweithio gyda'r Cyngor i reoli eu safleoedd yn effeithiol, y byddai'r Awdurdod cymryd camau gorfodaeth;
- gefnogi awgrym yr Aelod Arweiniol bod achos yn cael ei gyflwyno ar gyfer cefnogaeth swyddog ychwanegol, dan y fenter 'gwario i arbed', i fwrw ymlaen â'r prosiect a sicrhau cydymffurfiaeth yn y maes hwn;
- godi pryderon ynghylch na fyddai'r wybodaeth ychwanegol, sy'n cael ei gasglu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar gael mewn pryd i lunio'r adroddiad ar gyfer y cam yma o'i ddatblygiad; a
- gofyn i holl adrannau'r Cyngor i hysbysu'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fel mater o drefn os ydynt yn derbyn cais am wasanaeth neu fudd-dal gan unigolyn sydd wedi nodi safle carafannau fel ei gyfeiriad.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar yr adroddiad a'r arfarniad opsiynau:

***Penderfynwyd:***
*i) yn amodol ar y sylwadau uchod, a dilyn y trywydd ymholi a awgrymwyd, cymeradwyo cynhyrchiad terfynol dogfen y Strategaeth;*
*ii) gofyn i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, ar y cyfle cyntaf posibl, i gyflwyno achos busnes i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn manylu ar gynigion i gael swyddog i fwrw ymlaen â'r prosiect 'Rheoleiddio Safleoedd Carafanau yn Well'; a*
*(iii) bod adroddiad cynnydd ar ddatblygiad y Strategaeth, a'r pwyntiau uchod, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2015.*

Cyn i'r cyfarfod ddod i ben, dywedodd y Prif Weithredwr bod cyllid ychwanegol o oddeutu £113 miliwn wedi ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru yn Natganiad mis hydref Canghellor y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi y byddai oddeutu £70 miliwn ohono'n cael ei ddyrannu i'r Gwasanaeth Iechyd. Fodd bynnag, nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto ynghylch gweddill yr arian. Bydd yr Arweinydd yn ysgrifennu at Weinidog y Gwasanaethau Cyhoeddus i bledio bod swm sylweddol o'r arian sydd ar ôl yn cael ei ddyfarnu i lywodraeth leol, yn benodol ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol yng ngogledd Cymru. Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r aelodau lobïo eu cynrychiolwyr Cynulliad Cymru yn

yr un modd a bod cynrychiolydd gwleidyddol eu parti yn gwneud yr un peth er mwyn diogelu gwasanaethau yn y rhanbarth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12pm.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Peter Arnold Evans a/ac Huw Hilditch-Roberts